22. Rhowch gyfeiriadu unrhyw ardal o dir lle mae gennych ganiatâd saethu, ynghyd ag enw, cyfeiriad a rhif ffôn yr un sydd wedi rhoi'r caniatâd hwnnw i chi neu fanylion clwb rydych yn aelod ohono y mae'r Swyddfa Gartref wedi'i gymeradwyo.

    **DS:** Ni fyddwch o anghenraid yn gyfyngedig i saethu dros y darn o dir unigol hwnnw na'r clwb hwnnw.

*Meddyg sydd hefo cofrestriad Cyngor Meddygol Cyffredinol llawn, arbenigol neu feddyg teulu (yn hytrach na dros dro) a thrwydded i ymarfer.

Mae'r dudalen hon yn cael ei gadael yn wag er mwyn caniatáu i lythyr y meddyg a'r profforma gwybodaeth feddygol gael eu datgysylltu o weddill y cais.

| | |
|---|---|
| Enw'r meddyg | |
| Cyfeiriad | |
| Cod Post | |
| Enw'r ymgeisydd | |
| Dyddiad geni | |
| Cyfeiriad | |
| Cod Post | Ffôn |
| Cyfeiriad e-bost | |

Annwyl Feddyg,

Rwyf yn gwneud cais am dystysgrif arf tanio/tystysgrif dryll/er mwyn cael fy nghofrestru fel gwerthwr arf tanio.

**Ceisiadau arfau tanio ac addasrwydd meddygol**

Mae'r heddlu yn asesu ceisiadau am arfau tanio ac yn ei gwneud yn ofynnol i bob ymgeisydd ddarparu gwybodaeth gan feddyg sy'n cadarnhau a ydynt erioed wedi cael diagnosis neu driniaeth ar gyfer unrhyw un o'r cyflyrau canlynol, a all gael effaith ar a ydy rhywun yn addas i gael tystysgrif arf tanio:

- Ymateb Straen Acíwt neu ymateb acíwt i'r straen a achosir gan drawma gan gynnwys anhwylder straen ôl-drawmatig
- Meddyliau hunanladdol neu hunan-niweidiol neu niweidiol i bobl eraill
- Iselder neu orbryder
- Dementia
- Mania, anhwylder deubegynol neu salwch seicotig, neu anhwylder personoliaeth
- Cyflwr niwrolegol: er enghraifft, sglerosis ymledol, clefydau Parkinson neu Huntington neu epilepsi
- Camddefnyddio alcohol neu gyffuriau
- Unrhyw gyflwr meddyliol arfau gorfforol arall, neu gyfuniad o gyflyrau, rydych yn feddwl all effeithio meddu ar arfau tanio neu ddrylliau yn ddiogel.

Nid ydy'r rhestr uchod i fod yn gynhwysfawr. Dylai meddygon ystyried unrhyw gyflwr meddyliol, corfforol neu niwro-ddatblygiadol a allai effeithio ar feddiant diogel yr unigolyn o arf tanio neu ddryll, boed rŵan neu yn y dyfodol.

Sylwer nad ydy'r heddlu'n ceisio eich barn ar fy addasrwydd i ddal tystysgrif arf tanio, gan fod yr heddlu yn gyfrifol am y penderfyniad hwn. Dim ond ymateb ffeithiol sydd ei angen arnynt, gan feddyg sydd wedi'i gofrestru hefo'r Cyngor Meddygol Cyffredinol ac hefo cymwysterau addas* yn seiliedig ar fy nghofnod meddygol.

*Meddyg sydd hefo cofrestriad Cyngor Meddygol Cyffredinol llawn, arbenigol neu feddyg teulu (yn hytrach na dros dro) a thrwydded i ymarfer.

**Y wybodaeth a geir gan feddyg wedi cofrestru hefo'r Cyngor Meddygol Cyffredinol**

Os oes hanes o unrhyw un o'r cyflyrau meddygol perthnasol a restrwyd, gall yr ymateb gynnwys y canlynol:

1. Enw'r cyflwr meddygol
2. Hyd y cyflwr meddygol
3. Meddyginiaeth a roddwyd

Sylwch mai dim ond gwybodaeth am unrhyw gyflwr meddygol perthnasol y dylid ei ddarparu. Nid ydy argraffiad o fy hanes meddygol felly yn dderbyniol at y diben hwn.

**Ffioedd meddygon**

Os oes ffi i'w thalu, anfonwch anfoneb at fy nghyfeiriad cartref. Rwyf yn deall na fydd y wybodaeth yn cael ei darparu nes bod y ffi, os o gwbl, wedi'i thalu.

**Sut i ymateb**

Dylid anfon eich ymateb at adran trwyddedu arfau tanio yr heddlu lleol drwy e-bost diogel y GIG neu ei anfon drwy'r post. Fel arall, cysylltwch â mi er mwyn i mi allu ei gasglu. Os rhoddir yr ymateb i mi i'w roi i'r heddlu, efallai y byddant yn cysylltu hefo chi i gadarnhau'r manylion.

Pan fydd y wybodaeth feddygol yn cael ei darparu i'r heddlu gan feddyg o gwmni preifat, rhaid i'r meddyg dderbyn gwybodaeth feddygol yr ymgeisydd yn uniongyrchol gan y practis meddyg teulu ac nid trwy'r ymgeisydd.

Unwaith y bydd yr heddlu wedi ystyried eich ymateb, efallai y byddant yn dymuno gweld adroddiad meddygol am unrhyw gyflyrau meddygol perthnasol rwyf i wedi'u profi fel y gallent ystyried fy nghais. Byddaf yn atebol am y ffioedd meddygol i ddarparu adroddiad.

**Marciwr Arfau Tanio**

Rhowch faner 'cais am arf tanio wedi'i wneud' ar gofnod y claf. Os rhoddir tystysgrif arf tanio i mi, bydd yr heddlu yn cysylltu hefo chi i ofyn i chi osod baner 'tystysgrif arf tanio' ar fy nghofnod claf. Mae hyn er mwyn i'r heddlu gael eu rhybuddio os byddaf yn dechrau profi unrhyw un o'r cyflyrau meddygol perthnasol a restrir tra bod y dystysgrif arf tanio yn parhau i fod yn ddilys. Bydd yr heddlu wedyn yn adolygu fy addasrwydd i barhau fel deiliad tystysgrif arf tanio.

**Gwybodaeth bellach**

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, ffoniwch neu e-bostiwch adran trwyddedu arfau tanio'r heddlu lleol.

Diolch am eich cymorth.

Yr eiddoch yn gywir,

Llofnod ymgeisydd

## Caniatâd

Rwyf yn deall y gall meddyg rannu data personol sensitif hefo'r heddlu sy'n ymwneud â fy iechyd corfforol a meddyliol er mwyn galluogi'r heddlu benderfynu ar fy nghais, neu ar fy addasrwydd parhaus i feddu ar dystysgrif arf tanio/cael ei gofrestru fel gwerthwr arfau tanio, ac rwyf yn cydsynio drwy hyn i'r prosesu hwn o'm data personol.

Rwyf yn deall y bydd yr heddlu yn prosesu'r wybodaeth feddygol a ddarperir ar sail budd y cyhoedd at ddiben plismona cyfreithlon asesu addasrwydd rhywun i gael tystysgrif arf tanio neu ddryll.

Rwyf yn deall bod ymarferwyr meddygol wedi gofyn i fy nghydsyniad gael ei ddarparu mewn perthynas â'u dyletswydd cyfrinachedd i ganiatáu i feddygon ddarparu gwybodaeth i'r heddlu, a fydd wedyn yn prosesu'r data fel y disgrifir uchod.

Rwyf yn deall y gall yr heddlu gysylltu hefo fy meddyg teulu neu arbenigwr meddygol er mwyn cael manylion ffeithiol o unrhyw hanes meddygol o ran fy addasrwydd i feddu arf tanio a/neu ddryll. Mae hyn yn berthnasol am gyfnod fy nhystysgrif.

# Trwyddedu Arfau Tanio

## Profforma Gwybodaeth Feddygol

Ni ddylid diwygio'r ffurflen hon ar ôl ei chwblhau gan y meddyg.* Mae Deddf Arfau Tanio 1968 yn nodi ei bod yn drosedd gwneud datganiad ffug yn ymwybodol neu'n ddifrifol at ddibenion caffael grant neu adnewyddu tystysgrif, hefo uchafswm cosb o chwe mis o garchar a/neu ddirwy.

*Meddyg sydd hefo cofrestriad Cyngor Meddygol Cyffredinol llawn, arbenigol neu feddyg teulu (yn hytrach na dros dro) a thrwydded i ymarfer.

## Manylion claf

Teitl

Enw llawn

Cyfeiriad cartref

Dyddiad geni

Cyfeiriad e-bost

## Gwybodaeth feddygol: I'w gwblhau gan feddyg*

*Meddyg sydd hefo cofrestriad Cyngor Meddygol Cyffredinol llawn, arbenigol neu feddyg teulu (yn hytrach na dros dro) a thrwydded i ymarfer.

Gwiriwch hanes meddygol y claf am unrhyw hanes o'r canlynol a thiciwch y rhai hynny sy'n berthnasol. Os oes unrhyw un yn berthnasol, ychwanegwch ragor o fanylion dros y dudalen y gellir eu cyfyngu i ddatganiad ffaith ac nid barn.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| A ydych wedi cael mynediad at gofnodion meddygol llawn y claf er mwyn cwblhau'r adroddiad hwn? | Do | ☐ | Naddo | ☐ |
| A ydy'r cofnod meddygol yn barhaus? | Ydy | ☐ | Nac ydy | ☐ |
| Ydych chi wedi gosod baner 'cais arf tanio wedi'i wneud' ar gofnod y claf? | Do | ☐ | Naddo | ☐ |

Dyddiad dechrau cofnodion

Dyddiad yr ymgynghoriad diwethaf

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Ymateb Straen Acíwt neu ymateb acíwt i'r straen a achosir gan drawma gan gynnwys anhwylder straen ôl-drawmatig | Oes | ☐ | Nac oes | ☐ |
| Meddyliau hunanladdol neu hunan-niweidiol neu niweidiol i bobl eraill | Oes | ☐ | Nac oes | ☐ |
| Iselder neu orbryder | Oes | ☐ | Nac oes | ☐ |
| Dementia | Oes | ☐ | Nac oes | ☐ |
| Mania, anhwylder deubegynol neu salwch seicotig | Oes | ☐ | Nac oes | ☐ |
| Anhwylder personoliaeth | Oes | ☐ | Nac oes | ☐ |
| Cyflwr niwrolegol: er enghraifft, sglerosis ymledol, clefydau Parkinson neu Huntington neu epilepsi | Oes | ☐ | Nac oes | ☐ |
| Camddefnyddio alcohol neu gyffuriau | Oes | ☐ | Nac oes | ☐ |
| Unrhyw gyflwr meddyliol neu gorfforol arall, neu gyfuniad o gyflyrau, rydych yn feddwl all effeithio meddu ar arfau tanio neu ddrylliau yn ddiogel. | Oes | ☐ | Nac oes | ☐ |

Nid ydy'r rhestr uchod i fod yn gynhwysfawr. Dylai meddygon ystyried unrhyw gyflwr meddyliol, corfforol neu niwro-ddatblygiadol a allai effeithio ar feddiant diogel yr unigolyn o arf tanio neu ddryll, boed rŵan neu yn y dyfodol.

**Llofnodwch isod. Rhowch ragor o wybodaeth os ydych wedi ticio oes i unrhyw un o'r cwestiynau uchod**

Enw’r claf

Dyddiad geni

Beth ydy'r cyflwr meddygol neu'r cyflyrau meddygol?

Pa mor hir mae'r claf wedi'i drin am y cyflwr hwn?

A yw'r claf yn parhau i gael ei drin am y cyflwr hwn? Ydy ☐ Nac ydy ☐

Manylion meddyginiaeth a roddir

A oes unrhyw byliau blaenorol o'r cyflwr hwn?

Sut mae'r claf erbyn hyn?

A oes gennych unrhyw wybodaeth arall y credwch a all fod yn berthnasol i'r heddlu wrth benderfynu a ydy'r claf yn ddiogel i feddu arfau tanio?

Enw'r meddyg

Llofnod y meddyg

Rhif Cyngor Meddygol Cyffredinol

Dyddiad

Stamp y practis

## Atodiad A: Gwybodaeth a rhestr wirio i ganolwyr

Gofynnwyd i chi fod yn ganolwr i rywun sy'n ymgeisio cael neu adnewyddu arf tanio neu ddryll.

Mae'r rhestr wirio isod yn crynhoi'r gofynion ar gyfer canolwyr ar gyfer tystysgrifau arfau tanio a dryll. Rhaid i chi sicrhau eich bod yn bodloni'r holl ofynion hyn:

| Gofynion wedi'u bodloni? | Bodloni? |
|---|---|
| Rhaid iddynt fod yn byw ym Mhrydain Fawr. | ☐ |
| Ni allwch fod yn aelod o deulu'r ymgeisydd fel priod neu gymar, rhiant, chwaer neu frawd, modryb neu ewythr, nain neu daid, neu yng nghyfraith neu lys-berthnasau fel uchod. | ☐ |
| Ni allwch fod yn werthwr arfau tanio cofrestredig, yn swyddog heddlu sy'n gwasanaethu, yn weithiwr heddlu, yn Gomisiynydd Heddlu a Throsedd neu'n aelod o'u staff, nac yn aelod o, neu'n aelod o staff Awdurdod Heddlu'r Alban. | ☐ |
| Rhaid i chi fod o gymeriad da ac yn agored i'r heddlu gynnal gwiriadau cefndir yn ôl yr angen, er enghraifft, i ganfod a oes gennych unrhyw euogfarnau troseddol. | ☐ |
| Rhaid i chi fod wedi adnabod yr ymgeisydd yn bersonol am o leiaf ddwy flynedd, gan gynnwys y ddwy flynedd ddiwethaf. | ☐ |
| Mae'n rhaid i chi fod wedi cael cyswllt rhesymol hefo'r ymgeisydd dros y ddwy flynedd ddiwethaf. | ☐ |
| Rhaid i chi fod yn barod i roi barn ddibynadwy a gonest am gymeriad ac addasrwydd yr ymgeisydd i feddu tystysgrif arf tanio neu ddryll. | ☐ |
| Rhaid i chi weithredu fel canolwr yn rhydd a heb dderbyn unrhyw ffi. | ☐ |
| Rhaid i chi fod yn barod i gysylltu hefo'r heddlu os, ar ôl rhoi tystysgrif, rydych chi'n poeni am addasrwydd parhaus deiliad y dystysgrif i feddu ar arf tanio neu ddryll yn ystod dilysrwydd pum mlynedd y drwydded. | ☐ |

### Rôl canolwr

Fel canolwr rydych chi'n ymgymryd â rôl allweddol, gan fod yr ymgeisydd wedi eich nodi fel rhywun sy'n eu hadnabod yn ddigon da i roi barn ddibynadwy a gonest o'u cymeriad a'u haddasrwydd i feddu tystysgrif a fydd yn caniatáu iddynt feddu ar arfau tanio a / neu ddrylliau. Ar gyfer yr heddlu, byddwch yn darparu gwybodaeth hanfodol a fydd yn cael ei defnyddio er mwyn cynorthwyo penderfynu a ydy'r unigolyn yn cael mynediad at ynnau. Mae tystysgrif yn ddilys am bum mlynedd, a dros y cyfnod hwnnw gall yr heddlu gysylltu hefo chi eto fel rhan o sicrhau bod deiliad y dystysgrif yn parhau i fod yn addas i barhau i gael mynediad at ynnau. Mae'r rôl rydych chi'n ei chwarae yn un bwysig sy'n cynorthwyo sicrhau diogelwch y cyhoedd.

Mae'r wybodaeth ganlynol wedi'i chynllunio i'ch cynorthwyo i baratoi ar gyfer eich rôl ac egluro'r hyn fydd ei angen arnoch chi.

### Beth ydy eich rôl fel canolwr?

Rôl canolwr ydy darparu cymorth i'r heddlu, fel yr awdurdod trwyddedu, ac i'r ymgeisydd ar adeg y cais. Fel canolwr rhaid i chi fod yn rhywun o gymeriad da, sy'n adnabod yr ymgeisydd yn ddigon da i allu ateb cwestiynau am eu haddasrwydd i feddu tystysgrif o dan Ddeddf Arfau Tanio 1968. Os ydych chi'n datblygu pryderon am yr unigolyn ar unrhyw adeg ar ôl i'r dystysgrif gael ei rhoi, dylech gysylltu hefo'r heddlu i roi gwybod iddynt.

### A allaf fod yn ganolwr?

Gallwch. Nid oes unrhyw beth a fyddai'n eich atal rhag bod yn ganolwr yn gyfreithiol ar gais am arf tanio neu ddryll ar yr amod eich bod yn bodloni'r gofynion uchod.

### Ai fy mhenderfyniad i ydy eu bod nhw'n cael tystysgrif?

Na. Disgwylir i chi roi gwybodaeth ddibynadwy a barn onest am yr ymgeisydd. Mae'r wybodaeth rydych chi'n ei rhoi yn cael ei hystyried ynghyd â'r holl wybodaeth arall y bydd yr heddlu yn ei chasglu wrth adolygu'r cais. Bydd y penderfyniad terfynol ynghylch a fydd unigolyn yn cael tystysgrif bob amser yn gyfrifoldeb yr heddlu.

### A allaf godi i fod yn ganolwr?

Na. Rhaid i ganolwyr roi geirda yn rhydd a heb unrhyw ffi. Os ydych chi'n weithiwr proffesiynol sy'n gweithredu fel canolwr am daliad, byddai'n rhaid i'r heddlu ystyried yn ofalus a ydych chi'n unigolyn priodol i gysylltu hefo'r ymgeisydd.

### Rwyf yn ganolwr, ond nid oes neb erioed wedi gofyn i mi lofnodi dim.

Nid ydy'r ffurflen gais am dystysgrif arf tanio neu ddryll yn caniatáu cyfle i chi lofnodi er mwyn cadarnhau eich bod yn hapus bod yn ganolwr. Er ei fod yn gofyn nifer sylweddol o gwestiynau personol sy'n gysylltiedig hefo chi, ynghyd â'r ffordd rydych chi'n adnabod yr ymgeisydd ac am ba hyd, nid oes unrhyw ofyniad yn y gyfraith i chi weld y ffurflen. Fodd bynnag, byddem yn argymell bod yr ymgeisydd yn siarad hefo chi cyn cyflwyno'r cais. Bydd Swyddog Ymholiadau Arfau Tanio yn cadarnhau eich bod yn hapus i ymgymryd â'r rôl fel dyfarnwr pan fyddant yn cysylltu hefo chi.

### A all unrhyw un fod yn ganolwr?

Nid yw'n wir fod angen i chi fod yn aelod o unrhyw broffesiwn penodol i fod yn ganolwr. Eich gwybodaeth chi am yr ymgeisydd sydd bwysicaf. Fodd bynnag, nid ydy pawb yn gallu bod yn ganolwr. Gall canolwr fod o unrhyw gefndir neu fod hefo unrhyw alwedigaeth ar wahân i swyddog heddlu sy'n gwasanaethu, aelod o staff cymorth yr heddlu, Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd neu aelod o'u staff, aelod o Awdurdod Heddlu'r Alban neu aelod o'i staff, neu werthwr arfau tanio cofrestredig. Y ffactor mwyaf hanfodol, yn hytrach na phroffesiwn neu statws, ydy bod y canolwr o gymeriad da ac yn gallu cynnig golwg ddibynadwy ar yr ymgeisydd.

Ni all aelodau o deulu'r ymgeisydd weithredu fel canolwyr. Cymerir bod teulu, yn yr achos hwn, yn golygu'r canlynol: gwraig, gŵr, mam, tad, mab, merch, chwaer, brawd, modryb, ewythr, nain a thaid ac yng nghyfraith neu lys berthnasau fel uchod. Nid ydy cefndryd yn cael eu hystyried yn deulu agos, ond mae cymheiriaid sy'n cydfyw neu gymheiriaid sifil neu gymheiriaid mewn priodas o'r un rhyw yn cael eu hystyried fel teulu at y dibenion hyn ac ni fyddent yn cael eu derbyn.

Rhaid i ganolwyr hefyd fod yn byw ym Mhrydain Fawr, sydd at y dibenion hyn ddim yn cynnwys Gogledd Iwerddon. A dylech fod wedi adnabod yr ymgeisydd yn bersonol am o leiaf ddwy flynedd. Disgwylir mai dyma'r ddwy flynedd ddiweddaraf a byddai'n gofyn i chi gael rhywfaint o gyswllt rhesymol hefo'r ymgeisydd yn ystod y cyfnod hwnnw. Dylech fod hefo digon o wybodaeth am yr ymgeisydd, er mwyn i'r heddlu allu asesu eu haddasrwydd i gael mynediad at ynnau.

**Pa mor dda mae angen i mi adnabod yr ymgeisydd? A oes angen i mi fod hefo llawer o gyswllt hefo nhw?**

Rhaid i chi fod wedi adnabod yr ymgeisydd yn bersonol am o leiaf ddwy flynedd. Yn ystod y cyfnod hwn, dylech fod wedi cael cyswllt rhesymol hefo'r ymgeisydd, boed mewn cyd-destun proffesiynol, busnes neu gymdeithasol. Nid oes angen i chi fod hefo gwybodaeth am arfau tanio neu chwaraeon saethu, ond disgwylir y byddwch yn gallu  eud sylwadau ar gymeriad a chefndir cyffredinol yr ymgeisydd.

Gall adnabod rhywun am ddwy flynedd, ond nid mewn rhinwedd eich bod wedi 'dod i'w hadnabod' nhw'n dda, olygu nad ydych chi'n y sefyllfa orau i fod yn ganolwr iddyn nhw.

O ran ymwneud parhaus â'r ymgeisydd, mae disgwyl y byddwch yn cael cyswllt parhaus hefo'r ymgeisydd ar ôl i dystysgrif gael ei rhoi, er nad oes gofyniad cyfreithiol i chi wneud hynny. Mae hyn yn dod yn broblem dim ond os ydy'r ymgeisydd yn cysylltu hefo chi eto ar ddiwedd cyfnod pum mlynedd eu tystysgrif. Os bydd hynny'n digwydd, dylech ofyn i chi'ch hun a ydych chi'n dal i'w hadnabod yn ddigon da i weithredu'n gyfrifol fel canolwr eto.

**Beth os ydw i'n eu hadnabod, ond nid cymaint â gwybod ble maen nhw'n byw?**

Gall fod eich bod yn addas i weithredu fel canolwr heb o reidrwydd gwybod yn union lle mae'r ymgeisydd yn byw. Er enghraifft, efallai y byddwch chi'n bartner saethu rheolaidd, cydweithiwr, ffrind, neu aelod o'r clwb sy'n ymwneud hefo'r ymgeisydd yn rheolaidd ac yn barhaus. Yn y byd digidol hwn, mae mwy o gyfeillgarwch a chymdeithasau yn seiliedig ar bellteroedd hir. Ansawdd y cyswllt sydd gennych hefo ymgeisydd a fydd yn gwneud yr ymgysylltiad hwnnw yn berthnasol i rôl canolwr.

**A wyf yn gyfrifol os ydy'r ymgeisydd yn gwneud rhywbeth anghywir?**

Fel canolwr, nid yw'n ofynnol i chi warantu ymddygiad da yr ymgeisydd. Rôl y canolwr ydy cynorthwyo'r heddlu, fel yr awdurdod trwyddedu, a'r ymgeisydd, trwy'r cais. Pan fydd unrhyw bryderon yn cael eu codi gennych ynglŷn ag addasrwydd yr unigolyn, bydd y pryderon hynny'n cael eu trin yn sensitif ac yn broffesiynol. Efallai y bydd yr heddlu yn dymuno siarad hefo chi yn fanylach os oes gennych unrhyw bryderon, fel y gallent gymryd y camau mwyaf priodol er mwyn lleihau'r risg i ddiogelwch y cyhoedd neu'r heddwch.

Byddwch yn sicr na fyddai gweithrediadau'r ymgeisydd yn adlewyrchu arnoch fel y canolwr.

**Dydw i ddim yn eu hadnabod mewn gwirionedd. Fi ydy ysgrifennydd y clwb saethu y maen nhw'n aelod ohono. A allaf barhau i fod yn ganolwr iddyn nhw?**

Na allwch. Fel yr eglurwyd uchod, rhaid i'r canolwr allu gwneud sylwadau ar gymeriad yr ymgeisydd a rhoi barn ar eu haddasrwydd. Am y rheswm hwnnw, rhaid i'r canolwr eu hadnabod, yn hytrach na dim ond gallu gwneud sylwadau ar eu statws aelodaeth clwb.

Mewn amgylchiadau lle mae'r cais am dystysgrif arf tanio a rheswm da datganedig yr ymgeisydd dros y arf tanio ydy saethu targed, bydd yr heddlu yn cysylltu hefo prif swyddog (fel arfer swyddog cyswllt yr heddlu neu ysgrifennydd) y clwb pistol reiffl neu flaenlwythwr cymeradwy a nodwyd yn y cais. Y diben ydy cadarnhau bod yr ymgeisydd yn aelod; pa mor rheolaidd oeddent yno; a oedd eu disgyblaeth saethu o safon dderbyniol; a sut maen nhw'n cydymffurfio hefo rheolau'r clwb a gweithdrefnau diogelwch sy'n gysylltiedig hefo eu saethu.

Nid yw hyn yn gosod yr unigolyn hwnnw fel canolwr.

### Fi ydy meddyg yr ymgeisydd, yn ogystal â'u ffrind. A allaf fod yn ganolwr iddyn nhw?

Ni ddisgwylir i ganolwyr gynnig barn arbenigol, waeth beth fo'u cefndir neu eu galwedigaeth. Yn yr achos hwn, gallai meddyg weithredu fel canolwr ond dylai wneud hynny ar sail bersonol yn hytrach nag fel gweithiwr proffesiynol meddygol. Ni fyddai disgwyl i feddyg, sy'n gweithredu fel canolwr yn unig, gynnig unrhyw farn feddygol am iechyd yr ymgeisydd. Ni fyddai disgwyl i feddygon, yn yr amgylchiadau hyn, godi ffi am weithredu fel canolwyr.

Fel rhan o ystyriaeth yr heddlu o'r cais, cysylltir hefo meddyg teulu'r ymgeisydd fel rhan o'r broses ymholi am gais.

### Beth ydych chi'n ei olygu trwy ddweud bod yn rhaid i mi fod o "gymeriad da"?

Gan mai rôl y dyfarnwr ydy cynnig cyngor i'r heddlu ar addasrwydd yr ymgeisydd i feddu dryll neu arf tanio, bydd angen i'r heddlu fod yn fodlon eich bod yn onest, yn ddibynadwy ac y gellir ymddiried ynddo i gynnig barn deg a synhwyrol o'r ymgeisydd.

### A ydy'r heddlu yn cynnal gwiriadau cefndir arnaf i?

Fel canolwr, dylech fod yn agored i asesiad o'ch cymeriad da gan yr heddlu, a all olygu y bydd yr heddlu yn cynnal rhai gwiriadau cefndir arnoch chi. Bydd yr heddlu yn dymuno ystyried a oes gennych unrhyw euogfarnau troseddol ac, os felly, byddant yn gwneud asesiad ynghylch a ydy hyn yn cael effaith, yn seiliedig ar amgylchiadau unigol gan gynnwys natur y troseddau a phryd wnaethant ddigwydd. Bydd yr heddlu hefyd yn asesu a oes gennych arferion anghyffredin neu feddwl bregus, p'un a ydych chi eich hun wedi cael tystysgrif arf tanio neu ddryll wedi'i diddymu oherwydd eich camymddwyn eich hun, neu a oes unrhyw beth arall i awgrymu eich bod chi'n anaddas i weithredu fel canolwr.

Sylwer y bydd gwybodaeth amdanoch yn cael ei chadw yn ystod y broses ymgeisio a chyfnod ardystio'r ymgeisydd.

### Dywedwyd wrthyf nad ydy fy enwebiad fel canolwr yn addas. Beth wyf yn ei wneud nesaf?

Nid oes hawl apelio lle mae'r heddlu o'r farn nad ydy canolwr enwebedig yn bodloni'r gofynion.

Os ydy'r heddlu o'r farn bod canolwr yn anfoddhaol, ar y rhan fwyaf o achlysuron byddant yn gwahodd yr ymgeisydd i gyflwyno rhywun, neu bobl eraill. Nid oes gennych rôl bellach o fewn y broses ymgeisio.

Nid ydy peidio â bodloni'r meini prawf fel canolwr yn golygu yn awtomatig bod gan yr heddlu bryderon amdanoch chi. Weithiau, nid oes gan y canolwr arfaethedig ddigon o wybodaeth bersonol am yr ymgeisydd i roi geirda cytbwys.

### Gofynnwyd i mi fod yn ganolwr, ond rwyf yn byw dramor. A allaf fod yn ganolwr o hyd? Beth os byddaf ond yn byw dramor am ran o'r flwyddyn, er bod fy nghyfeiriad arferol ym Mhrydain Fawr?

Mae'r gyfraith yn hynod benodol o ran pwy all fod yn ganolwr, ac mae'n rhaid i ganolwr breswylio ym Mhrydain Fawr.

O ran yr unigolion hynny sy'n treulio rhan o'u hamser yn byw dramor, bydd hyn yn cael ei ystyried fesul achos. Yr hyn a ofynnir ydy a ydych chi'n fodlon bod yn ganolwr pan nad oes gennych gyswllt rheolaidd hefo'r ymgeisydd.

### A fydd yr heddlu yn dod i'm cartref i siarad hefo mi?

Cyn rhoi tystysgrif, bydd yr heddlu yn cysylltu hefo chi. Cysylltir â chi dros y ffôn, drwy alwad fideo ar-lein neu drwy ymweliad i'ch cartref.

### Beth fydd yr heddlu yn gofyn i mi??

Byddwch yn cael gwybod bod eich enw wedi'i roi gan yr ymgeisydd fel canolwr, a byddwch yn cael cyfle i ddweud wrth yr heddlu am unrhyw bryderon sydd gennych. Gofynnir i chi hefyd am unrhyw fater sy'n ymwneud ag addasrwydd yr ymgeisydd i feddu arfau tanio.

Nid oes set ddiffiniol o gwestiynau, gan y bydd yr heddlu yn gofyn unrhyw gwestiynau y maent yn eu hystyried yn briodol i'r ymholiad cais. Ni fyddai disgwyl i chi wybod unrhyw wybodaeth feddygol, er y gofynnir i chi a ydych chi'n gwybod am unrhyw reswm a allai atal yr ymgeisydd rhag cael tystysgrif neu ddefnyddio gwn yn ddiogel.

Gofynnir i chi hefyd a ydych chi'n deall eich cyfrifoldebau fel canolwr ac yn cadarnhau eich bod chi'n gwybod pwy i gysylltu hefo nhw os oes gennych unrhyw bryderon ynghylch addasrwydd yr ymgeisydd yn y dyfodol.

### Nid wyf yn ganolwr mwyach, ond mae'r heddlu wedi cysylltu hefo mi.

Ar ôl adnewyddu tystysgrif, bydd ymgeisydd fel arfer yn edrych i gael yr un canolwr. Fodd bynnag, ar adegau, o bosibl oherwydd symud i ffwrdd, diffyg cyswllt neu newid amgylchiadau, gellir enwi gwahanol ganolwyr. Does dim byd o'i le hefo hynny. Fodd bynnag, weithiau bydd yr heddlu yn cysylltu hefo canolwr blaenorol er mwyn deall y rheswm dros y newid a sicrhau nad oes unrhyw beth annymunol mewn perthynas â pham na chawsoch eich dewis eto.

### Hefo pwy ddylwn i gysylltu os oes gennyf bryderon yn y dyfodol ynglŷn â'r ymgeisydd?

Mae yna bob math o faterion a all effeithio a ydy deiliad tystysgrif yn parhau i fod yn rhywun sy'n gallu parhau cael mynediad diogel at ynnau. Fel canolwr, efallai y bydd rhywbeth yn dod i'ch sylw rydych chi'n ei ystyried a allai fod yn berthnasol. Gall problemau meddygol, straen sy'n gysylltiedig hefo gwaith, profedigaeth, problemau priodasol, neu bryderon ariannol sbarduno'r angen i'r heddlu ystyried eto a ydy'r unigolyn yn parhau i fod yn addas. Nid ydy bob amser yn hawdd i ddeiliad tystysgrif nodi eu heriau eu hunain neu pan fydd angen cymorth arnynt, a dyna pam y dylai teulu, ffrindiau, cydweithwyr gwaith, a chi, fel canolwr, wybod sut i wneud yr heddlu yn ymwybodol o unrhyw bryderon.

Os oes gennych bryder am ddeiliad tystysgrif arf tanio neu ddryll, bydd yr heddlu yn trin eich gwybodaeth yn gyfrinachol (gan gynnwys anhysbysrwydd lle bo hynny'n briodol) ac yn ymchwilio i'r mater mewn modd sensitif.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu ymholiadau cyffredinol, dylech siarad hefo Adran Trwyddedu Arfau Tanio eich heddlu lleol.

Os oes gennych bryderon mwy uniongyrchol, dylech ystyried y canlynol:

### Ffôn Argyfwng

Ffoniwch 999 os:

- ydy trosedd ddifrifol ar waith neu newydd gael ei chyflawni
- ydy rhywun mewn perygl neu niwed uniongyrchol neu
- mae aflonyddwch difrifol i'r cyhoedd yn debygol.

### Ffôn Di-frys

Ffoniwch 101 a gofynnwch am gael eich rhoi drwodd i rywun o'r Adran Trwyddedu Arfau Tanio os:

- oes gennych bryderon ynghylch ymgeisydd neu ddeiliad tystysgrif arf ac nid oes perygl uniongyrchol
- rydych chi'n ceisio cyngor mewn perthynas â'ch rôl fel canolwr
- rydych chi angen cymorth fel canolwr.

### Ar-lein

Os nad ydych yn dymuno cysylltu hefo'r heddlu'n uniongyrchol, cysylltwch hefo'r elusen annibynnol Crimestoppers drwy ffonio 0800 555 111 neu ddefnyddio eu ffurflen riportio ar-lein a rhoi gwybodaeth yn ddienw.